

Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Gwelliannau Cyfnod 2

Tachwedd 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6574**

E-bost: **Lorna.Scurlock@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **Diweddariadau mewn amser real | Diweddariadau wythnosol a misol**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Gwelliannau Cyfnod 2

Tachwedd 2022

Awdur:
Lorna Scurlock



Cynnwys

1. Crynodeb o welliannau Cyfnod 2	1
Grŵp 1: Gwelliannau yn ymwneud ag ystyr cynnyrch plastig untro a chynhyrchion plastig untro gwaharddedig.....	1
Grŵp 2: Gwelliannau yn ymwneud â chanllawiau, codi ymwybyddiaeth ac addysg	2
Grŵp 3: Gwelliannau yn ymwneud ag esemptiadau mewn perthynas â gwellt	2
Grŵp 4: Gwelliannau yn ymwneud â gweithgynhyrchu cynhyrchion plastig untro gwaharddedig	2
Grŵp 5: Gwelliannau yn ymwneud ag esemptiadau mewn perthynas â bagiau siopa.....	2
Grŵp 6: Gwelliannau yn ymwneud â chynhyrchion a wneir o blastig ocso-ddiraddiadwy a phlastig ocso-fioddiraddiadwy.....	3
Grŵp 7: Gwelliannau yn ymwneud â dehongli.....	4
Grŵp 8: Gwelliannau sy'n ymwneud â chynhyrchion plastig untro gwaharddedig: Pŵer i ddiwygio.....	4
Grŵp 9: Gwelliannau yn ymwneud â threfniadau polisi yn y dyfodol: Strategaeth llygredd plastig untro a Thasglu Cynhyrchion Amldro.....	5
Grŵp 10: Gwelliannau yn ymwneud â throedd cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig	6
Grŵp 11: Gwelliannau yn ymwneud â chamau gorfodi gan awdurdodau lleol	6

Grŵp 12: Gwelliannau'n ymwneud ag adolygu gweithrediad
y Ddeddf 7

Grŵp 13: Gwelliannau yn ymwneud â'r Ddeddf yn dod i rym..... 7

2. Y camau nesaf: Cyfnod 3 7

1. Crynodeb o welliannau Cyfnod 2

Dechreuodd Cam 2 o **Fil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)** ar 12 Hydref, a daeth i ben ar 9 Tachwedd 2022. Cyfarfu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith i ystyried gwelliannau Cyfnod 2 ar **9 Tachwedd 2022**.

Cyflwynwyd 86 o welliannau yng Nghyfnod 2, gyda chyfran sylweddol wedi'u cyflwyno gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil, sef Julie James AS.

Cafodd y gwelliannau eu **grwpio gyda'i gilydd** er mwyn hwyluso'r ddadl. Roedd 13 grŵp:

Grŵp 1: Gwelliannau yn ymwneud ag ystyr cynnyrch plastig untro a chynhyrchion plastig untro gwaharddedig

Diben gwelliannau Aelod a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS a Delyth Jewell AS oedd **tynhau'r diffiniad o 'untro'** trwy fewnosod y gair 'dyfeisio/dyfeisiwyd'. Rhesymeg y ddwy oedd y byddai hynny'n darparu mwy o eglurder o ran pam y sefydlwyd y cynnyrch, ac i ddal cynhyrchion aml-becyn neu gynhyrchion ar gyfer y teulu cyfan (yn cynnwys nifer o eitemau wedi'u pacio'n unigol) o dan y diffiniad. Byddai hyn, hefyd, yn golygu bod y diffiniad yn gyson â **deddfwriaeth yr Alban**.

Ni chefnogodd y Gweinidog welliannau'r Aelod:

We have carefully considered the amendments and tested them against the whole Bill as drafted, and I can assure Members that we are confident that the intended practical effect is delivered more effectively using the definitions we've developed because of the Welsh context. The drafting is not identical, as we have sought to clarify text or remove wording we consider to be unnecessary. This is in accordance with our normal drafting practice.

Fodd bynnag, ar y mater o gynhyrchion aml-becyn, dywedodd y Gweinidog iddi gael ei pherswadio bod gwerth mewn gwneud newid i'r Bil, a chynigiodd weithio gyda Delyth Jewell AS ar welliannau posibl yng Nghyfnod 3.

Yng Nghyfnod 2, cyflwynodd y Gweinidog welliannau i'w gwneud yn glir nad yw'r diffiniad o blastig yn cynnwys plastig ac adlyn, paent neu inc, ac i roi 'ychwanegyn' yn lle'r gair 'sylwedd'. Mae gwelliannau pellach gan y Llywodraeth yn mireinio'r darpariaethau ynghylch newidiadau yn y dyfodol i'r rhestr o eitemau gwaharddedig ac eithriadau.

Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog. Gwrthodwyd gwelliannau'r Aelodau.

Grŵp 2: Gwelliannau yn ymwneud â chanllawiau, codi ymwybyddiaeth ac addysg

Roedd y prif welliant yn enw'r Gweinidog, ac roedd yn ceisio mewnosod isadran newydd yn adran 2 o'r Bil i **osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio canllawiau** am gynhyrchion plastig untro a waherddir o dan y Ddeddf, ac eithriadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Atodlen.

Cynigiwyd gwelliant pellach yn y grŵp hwn gan Janet Finch-Saunders AS a Delyth Jewell AS.

Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog. Gwrthodwyd gwelliannau'r Aelodau.

Grŵp 3: Gwelliannau yn ymwneud ag esemptiadau mewn perthynas â gwellt

Diben y prif welliant yn y grŵp hwn – yn enw'r Gweinidog – oedd ceisio mynd i'r afael â materion technegol o fewn y drafft presennol, a **darparu eglurder ar esemptiad 1 mewn perthynas â gwellt**.

Derbyniwyd pob gwelliant yn y grŵp hwn (pob un gan y Gweinidog).

Grŵp 4: Gwelliannau yn ymwneud â gweithgynhyrchu cynhyrchion plastig untro gwaharddedig

Roedd y prif welliant yn y grŵp yn enw Delyth Jewell MS a'i ddiben oedd sicrhau bod y Bil yn cyd-fynd â deddfwriaeth yr Alban, drwy **wahardd gweithgynhyrchu'r eitemau** rhestredig, yn ogystal â'u cyflenwi. Dywedodd Delyth Jewell MS:

The spirit in which they've been tabled is that they would be in keeping with Wales's global responsibility under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 to ensure that plastic waste isn't simply offshored.

Ni chefnogodd y Gweinidog welliannau'r Aelod, dywedodd y byddai cyfleoedd eraill i edrych ar weithgynhyrchu plastigau untro yng Nghymru, ac nad dyma'r unig Fil, yr unig ddarpariaeth na'r unig Ddeddf sy'n yn edrych ar y mathau hyn o faterion yn y Senedd.

Gwrthodwyd gwelliannau'r Aelodau.

Grŵp 5: Gwelliannau yn ymwneud ag esemptiadau mewn perthynas â bagiau siopa

Cyflwynwyd y prif welliant gan Delyth Jewell AS, sef gwelliant â'r diben – ynghyd â gwelliannau canlyniadol eraill yn y grŵp – o **ddileu'r esemptiad presennol sy'n bodoli ar gyfer bagiau siopa a ddefnyddir mewn lleoliadau meddygol**, gan ddweud:

...pharmacies still hand out millions of small plastic bags each year, and their small size doesn't make it practical for households to use those particular size single bags for other uses afterwards.

Cefnogwyd y gwelliannau gan holl Aelodau'r Pwyllgor. Er bod y Gweinidog hefyd yn cefnogi'r gwelliant, tynnodd sylw at y ffaith y bydd angen cyflwyno gwelliannau pellach yng Nghyfnod 3 i ddwyn rhannau eraill o'r Bil yn unol â'r gwelliant hwn.

Derbyniwyd gwelliant yr Aelod.

Cyflwynwyd gwelliannau pellach yn y grŵp hwn gan Janet Finch-Saunders AS, a oedd yn ceisio ychwanegu dietegwyr cofrestredig, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion at y diffiniad o 'weithiwr iechyd proffesiynol' yn y Bil. Fodd bynnag, gwrthwynebwyd hyn gan y Gweinidog a holl Aelodau eraill y Pwyllgor ar y sail nad yw dietegwyr cofrestredig neu therapyddion galwedigaethol yn gallu rhagnodi meddyginiaeth.

Cafodd y gwelliant hwn gan Aelod ei wrthod.

Grŵp 6: Gwelliannau yn ymwneud â chynhyrchion a wneir o blastig oco-so-ddiraddiadwy a phlastig oco-so-fiogdiraddiadwy

Cyflwynwyd y prif welliant gan Janet Finch-Saunders AS gyda'r diben o **ddileu cynhyrchion oco-so-ddiraddiadwy oddi ar y rhestr o gynhyrchion gwaharddedig**. Nod gwelliannau pellach yn y grŵp oedd eithrio unrhyw gynnyrch a wnaed o blastig oco-so-fiogdiraddiadwy o'r rhestr o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig.

Mae oco-so-ddiraddiadwy yn cyfeirio at blastigau sydd wedi'u cynllunio i dorri'n ddarnau llai (plastigau micro/nano). Dywedodd Janet Finch-Saunders AS: "*Oxo-biodegradable plastics break down past microplastics with the help of micro organisms, so a big difference between what's been described as 'oxo-degradable' and the real terminology of 'oxo-biodegradable.'*"

Wrth ateb, dywedodd y Gweinidog:

...there is not yet a settled scientific opinion that oxo-biodegradable plastic behaves differently to oxo-degradable plastic in nature, therefore, based on current evidence, we see no reason to treat this sub-category of oxo-biodegradable plastics any differently. We continue to monitor emerging evidence prior to commencing a ban, to see whether there is a case for including specific exemptions,

Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod hwn yn faes cymhleth sy'n dal yn destun ymchwil, ond dywedodd ei bod yn fodlon bod yna dystiolaeth gredadwy o'r niwed y mae plastig oco-so-ddiraddadwy yn ei beri i'r amgylchedd. Ychwanegodd y Gweinidog:

But we recognise the need to consider certain evidence further—so, whether there are sub-categories of oxo-degradable plastic that ought to be exempt before the ban is brought into force. Commencement of the ban, therefore, on oxo-degradable plastics is being phased, to enable that particular piece of work to be completed.

Roedd gwelliant gan y Llywodraeth yn y grŵp hwn yn ceisio ychwanegu eglurder at y diffiniad presennol o 'blastigau oco-so-ddiraddadwy' yn y Bil.

Cafodd holl welliannau'r Aelodau yn y grŵp hwn eu gwrthod. Derbyniwyd gwelliant y Gweinidog.

Grŵp 7: Gwelliannau yn ymwneud â dehongli

Roedd y prif welliant yn y grŵp hwn yn enw'r Gweinidog ac – ochr yn ochr â gwelliant arall y Llywodraeth yn y grŵp – mae'n **dechnegol ei natur** gan ddileu'r diffiniad o 'fag plastig' yn y Bil.

Diben gwelliant pellach yn y grŵp - a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS - oedd ceisio dileu'r cyfeiriad at ddefnydd cosmetig a hylendid personol neu hylendid anifeiliaid, yn y diffiniad o ffyn cotwm. Byddai hyn yn unol â'r **ddeddfwriaeth yn Lloegr**.

Ni chefnogwyd y gwelliant hwn gan y Gweinidog. Dywedodd mai bwriad y polisi yw cipio ffyn cotwm a ddefnyddir mewn lleoliad domestig, ac y gellir eu gwaredu'n anghywir, o bosibl, trwy gael eu fflysio i lawr y toiled. Mae ffyn cotwm, felly, a ddefnyddir mewn lleoliad meddygol h.y. 'swabs', wedi'u heithrio o'r darpariaethau.

Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog. Cafodd gwelliant yr Aelod ei wrthod.

Grŵp 8: Gwelliannau sy'n ymwneud â chynhyrchion plastig untro gwaharddedig: Pŵer i ddiwygio

Roedd y prif welliant yn y grŵp hwn yn enw'r Gweinidog. Ei ddiben oedd **gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori** ag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac unrhyw gyrff perthnasol eraill cyn gwneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o gynhyrchion sydd wedi'u gwahardd gan y Bil. Dywedodd y Gweinidog fod y gwelliant wedi'i gyflwyno yn dilyn argymhellion gan bwyllgorau'r Senedd yn ystod Cyfnod 1.

Diben gwelliannau pellach yn y grŵp hwn – a gyflwynwyd gan Janet Finch-Saunders AS – oedd ceisio pennu na fydd unrhyw reoliadau diwygio yn dod i rym am o leiaf 12 mis. Roedd yn ddiben ganddynt hefyd i geisio gorfodi Gweinidogion Cymru i gynnal dadansoddiad cylchred oes, dadansoddiad o gostau, a pharatoi asesiad effaith rheoleiddiol cyn diwygio'r rhestr o gynhyrchion a waharddwyd.

Roedd Janet Finch-Saunders AS hefyd wedi cyflwyno gwelliant tebyg i welliant y Llywodraeth yn y grŵp hwn. Fodd bynnag, nid oedd gwelliant y Llywodraeth yn cyfeirio'n benodol at **ymgynghori â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl**. Cydnabu'r Gweinidog y 'pwynt pwysig' (yn ei geiriau hi) hwn a derbyniodd mewn egwyddor, gan gynnig gweithio gyda'r Aelod i gyflwyno gwelliant ymarferol yng Nghyfnod 3.

Roedd gwelliant pellach gan Janet Finch-Saunders AS yn ceisio ychwanegu 'bagiau bach o saws' at yr eitemau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hystyried wrth ddiwygio'r Ddeddf, h.y. gwelliannau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, dim ond weips gwlyb a nodwyd yn y Bil. Eglurodd y Gweinidog na fwriedir i hon fod yn rhestr gyflawn, ond mae'n fodlon ymestyn y rhestr bresennol ac felly'n cefnogi'r gwelliant.

Cyflwynodd Delyth Jewell AS welliant hefyd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg wrth ddiwygio'r cynhyrchion a waharddwyd.

Derbyniwyd gwelliant y Gweinidog. Derbyniwyd gwelliant un Aelod (bagiau bach o saws), a gwrthodwyd gweddill gwelliannau'r Aelodau.

Grŵp 9: Gwelliannau yn ymwneud â threfniadau polisi yn y dyfodol: Strategaeth llygredd plastig untro a Thasglu Cynhyrchion Amlbro

Diben y prif welliant gan Janet Finch-Saunders AS oedd sicrhau fod Llywodraeth Cymru yn **sefydlu strategaeth llygredd plastig untro**, gan nodi blaenoriaethau, cyfleoedd a mentrau allweddol i fynd i'r afael â llygredd plastig untro.

Roedd gwelliannau a gyflwynwyd gan Delyth Jewell AS yn galw am **dasglu i roi cyngor ar fforddiadwyedd cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio**. Fodd bynnag, dywedodd fod y gwelliant wedi'i gynnwys:

...mainly as a probing amendment to try to get us talking about different ways in which we could solve this problem. And the spirit behind these amendments is trying to tackle the issue whereby products that are more environmentally friendly, that are more sustainable, are simply more expensive.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â theimlad y gwelliannau hyn, ond gofynnwyd a oedd angen eu cael ar wyneb y Bil.

Yn dilyn ymateb y Gweinidog, tynnodd Janet Finch-Saunders AS y prif welliant ynghylch strategaeth llygredd plastig untro, yn ôl.

Mewn ymateb i welliannau tasglu Delyth Jewell, tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod sefydlu bwrdd goruchwyllo a phanel cynghori ar gyfer cynhyrchion plastig untro wedi'u nodi ym Memorandwm Esboniadol y Bil. Wedi hynny, gwrthodwyd y gwelliant hwn.

Grŵp 10: Gwelliannau yn ymwneud â throedd cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig

Cafodd y prif welliant – a'r mwyafrif yn y grŵp hwn – eu cyflwyno yn enw'r Gweinidog. Eu nod oedd **darparu eglurder** ynghylch y darpariaethau, gan gynnwys diffinio ystyr cyflenwad at ddibenion y drosedd, a nodi cwmpas 'cynnig cyflenwi' yn fanwl.

Cyflwynwyd gwelliannau yn y grŵp hwn hefyd gan Janet Finch-Saunders AS.

Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog. Gwrthodwyd gwelliannau'r Aelodau.

Grŵp 11: Gwelliannau yn ymwneud â chamau gorfodi gan awdurdodau lleol

Cyflwynwyd yr holl welliannau yn y grŵp hwn gan Janet Finch-Saunders AS. Roedd y gwelliannau arweiniol yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu **cyllid digonol i awdurdodau lleol orfodi** r Bil.

Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn ceisio lleihau'r baich ariannol ar awdurdodau lleol o ran y ddeddfwriaeth hon gymaint â phosibl, a thynnodd sylw at y defnydd o godi ymwybyddiaeth a chanllawiau i leihau'r angen am orfodi.

Roedd gwelliannau pellach yn y grŵp yn ymwneud â'r **awdurdod swyddogion i fynd i mewn i ran annedd o eiddo** wrth fynd i mewn i eiddo busnes at ddibenion gorfodi. Er bod y Gweinidog yn derbyn y rhain mewn egwyddor, ni allai eu derbyn fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd ond yn hytrach cynigiodd gyflwyno gwelliant addas gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 3 i egluro lle mae angen gwarant i fynd i mewn i eiddo a beth yw natur y safleoedd hynny.

Tynnwyd y gwelliant hwn yn ôl wedyn. Gwrthodwyd y gwelliannau eraill yn y grŵp.

Grŵp 12: Gwelliannau'n ymwneud ag adolygu gweithrediad y Ddeddf

Cyflwynwyd gwelliannau gan Janet Finch-Saunders AS gyda'r nod o sicrhau **adolygiad o weithrediad y ddeddfwriaeth**, drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron y Senedd ynghylch ei effaith weithredol.

Yn ei hymateb, tynnodd y Gweinidog sylw at fwriad Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth, ddim hwyrach na phum mlynedd ar ôl iddi ddod i rym.

Gwrthodwyd y gwelliannau yn y grŵp hwn.

Grŵp 13: Gwelliannau yn ymwneud â'r Ddeddf yn dod i rym

Cyflwynwyd yr un gwelliant gan Janet Finch-Saunders AS, sef mewnosod 1 Ionawr 2024 fel y dyddiad y daw darpariaethau'r Ddeddf i rym. Y pwrpas oedd **rhoi sicrwydd i fusnesau**.

Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog fod angen i'r ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno fesul cam, a thynnodd sylw at y defnydd o Orchymyn Cychwyn i sicrhau bod rhai gwaharddiadau'n cael eu cyflwyno'n ddidrafferth.

Gwrthodwyd y gwelliant.

2. Y camau nesaf: Cyfnod 3

Dechreuodd y Bil Gyfnod 3 y broses ddeddfwriaethol ar 10 Tachwedd 2022. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Aelodau o'r Senedd (gan gynnwys y Gweinidog) yn cael cyfle i gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2. Gellir gweld gwelliannau a gyflwynwyd ar **Dudalen y Bil**.

Bydd y Senedd yn ystyried y gwelliannau a gyflwynwyd yng Ngham 3 yn y Cyfarfod Llawn **Ddydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022**.